

# Ysgol Bro Cinmeirch



## Polisi Cwricwlwm

Dyddiad Cymeradwyo: 19.04.23

Dyddiad Adolygiad: Gwanwyn 2024

Llofnodwyd: SOWens  
(Cadeirydd y Llwyodraethwyr)

## Polisi Cwricwlwm

### Nod:

Bwriad y Polisi yw esbonio beth fydd ffocws y cwricwlwm yn Ysgol Bro Cinmeirch. Mi fydd yr ysgol yn cynllunio yn erbyn y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad ond y Pedwar Diben bydd yn gyrru'r cwricwlwm ymlaen gyda'r sgiliau allweddol yn sylfaen i bob agwedd o'r cwricwlwm yn ein hysgol ni sef; *Gwyl Galluog, Gwen Gwybodus, Ina Iachus a Ceri Creadigol.*

### Hawliau Plant:

Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 6: Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Erthygl 27: Eich hawl i safon dda o fywyd. Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod.

Erthygl 30: Eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun.

Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae.

Erthygl 37: Eich hawl i gael eich trin yn deg

Mae ein Cyngor Ysgol yn sicrhau bod y plant yn deall eu hawliau.

### Pedwar Diben ein Cwricwlwm:

Mae'r 4 diben yn ddyhead ac yn nod derfynol i ni fel ysgol. Rydym yn gwireddu'r 4 diben o fewn yr ysgol gan sicrhau ein bod yn gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn hyrwyddo lles personol a chenedlaethol, yn herio anwybodaeth a ffug-wybodaeth, ac yn annog dysgwyr i chwarae eu rhan fel dinasyddion effro a beirniadol. Nod y Cwricwlwm yw cefnogi dysgwyr i fod yn....

#### • **Dysgwyr uchelgeisiol a galluog:** Golyga hyn eu bod yn gallu:

- gosod safonau uchel
- yn gallu herio eu hunain
- yn mwynhau
- yn ymholgar
- yn gallu datrys problemau
- gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- gallu defnyddio rhif yn effeithiol
- yn deall sut i ddehongli data
- yn defnyddio technoleg ddigidol yn greadigol

- yn ymchwilio a gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol ac yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywyd.

- **Mentrus a chreadigol:** Golyga hyn eu bod nhw'n gallu:

- cysylltu â chymhwyso gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion
- meddwl yn greadigol er mwyn ail lunio a datrys problemau
- adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt
- mentro'n bwyllog
- arwain a chyfrannu i dîm yn effeithiol ac yn gyfrifol
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy gyfryngau gwahanol
- rhoi eu hegri a'u sgiliau fel y gall eraill elwa ac yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

- **Dinasyddion egwyddorol a gwybodus:** Golyga hyn eu bod nhw'n gallu:

- darganfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth lunio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- ymarfer a deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas.
- dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaladwyedd y blaned ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.

- **Iach a hyderus:** Golyga hyn eu bod nhw'n gallu

- meddu ar werthoedd cryf ac sy'n sefydlu eu credoau oesol ac ysbrydol
- adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth ar cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol

- yn gwneud penderfyniadau rhesymol yn eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- ffurfio perthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- wynebu ac yn goresgyn heriau
- a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio a'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallen nhw ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

### Egwyddorion Cynllunio'r Cwricwlwm yn Ysgol Bro Cinmeirch:

Yn Ysgol Bro Cinmeirch, mae ein Cwricwlwm;

- Yn ddilys - Wedi gwreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru
  - Wedi ei seilio ar dystiolaeth - yn gwneud defnydd o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt
  - Yn ymatebol - yn berthnasol i anghenion heddiw
- Yn gynhwysol - yn hawdd i bawb ei ddeall gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel
- Yn uchelgeisiol - yn ymglyffori disgwyliadau mawr heb osod terfynau artiffisial
- Yn rymusol - galluogi pobl ifanc i wynebu heriau'n hyderus
- Yn unedig - yn caniatáu parhad a dilyniant (cam i gam)
- Yn ddiddorol - yn hybu mwynhad o ddysgu
- Wedi seilio ar sybsidiaredd - yn ennyn hyder ym mhawb gan gymell perchnogaeth briodol
- Yn hawdd ei drin - yn cydnabod goblygiadau o ran cael trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol

### Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

Mae ein Cwricwlwm yn cynnwys y 6 Maes Dysgu a Phrofiad, mae'n cwmpasu'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ac yn adlewyrchu'r Egwyddorion Cynnydd. Rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn amryfal brofiadau o fewn holl meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm.

**Y Celfyddydau Mynegiannol** - Yn ymgorffori celf, dawns, drama, ffilm, cyfryngau digidol a cherddoriaeth. Bydd yn annog creadigrwydd a meddwl beirniadol ac yn cynnwys perfformiad.

**Iechyd a Lles** - Mae hyn yn cwmpasu agweddau corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol bywyd gan helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd

a'u lles a dysgu sut i reoli dylanwadau cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys Addysg Gorfforol.

**Y Dyniaethau** - Yn ymgorffori daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Bydd yn seiliedig ar brofiadau dynol a bydd hefyd yn ymdrin â diwylliant Cymru.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** - Bydd hyn yn cynnwys Cymraeg a Saesneg, llenyddiaeth ac ieithoedd rhyngwladol.

**Mathemateg a Rhifedd** - Yn y blynyddoedd cynnar bydd hyn yn golygu dysgu drwy chwarae. Mewn camau diweddarach, bydd hyn yn cynnwys gweithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**- Yn ymgorffori bioleg, cemeg, ffiseg, cyfrifiadureg a dylunio technoleg.

#### Themâu Trawsgwricwlaidd a Sgiliau ar gyfer y Cwricwlwm Cyfan:

Mae sgiliau Cymhwysedd Digidol, Rhifedd a Llythrennedd yn fandadol i alluogi'r dysgwyr i wireddu'r pedwar diben.

Mae'r tri sgil trawsgwricwlaidd mandadol hyn wedi'u gwireddu a'u datblygu ar draws pob maes dysgu a phrofiad, i alluogi dysgwyr i gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan.

Wrth esblygu Cwricwlwm i Gymru, mae arbrofi ac arloesi'n bwysig iawn i ni a byddwn yn cydweithio'n agos o fewn yr ysgol ac ar draws y clwstwr er mwyn sicrhau profiadau dysgu a'r addysgu gorau y gallwn ei gynnig i'n dysgwyr.

Mae ein dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- ddatblygu sgiliau gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu.
  - gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn.
  - bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.
- 
- Mae cynnig profiadau newydd a cyffrous yn flaenoriaeth i athrawon yr ysgol.
  - Mae ardaloedd ysgogol a creadigol wedi'w sefydlu yn yr ysgol.
  - Rydym yn creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf.
  - Yn ystod eu hamser yn Ysgol Bro Cinmeirch rydym yn cynnig teithiau ac ymweliadau cyffrous.

- Mae cyfleoedd i gystadlu tu allan i'r ysgol a theithiau tu allan i'r ysgol.
- Rydym yn cynnig amrywiaeth o wersi cerddorol.
- Mae elfennau o sgiliau trawsgwricwlaidd yn cael eu dysgu yn bynciol ond mae'r mwyafrif o'r addysgu yn digwydd yn integredig a thematig drwy ddulliau themâu / cwestiynau mawr ac ymholiadau.
- Mae elfennau o les yn cael eu haddysgu yn unigol mewn sesiynau wythnosol.

O ganlyniad i mewnbwn llais y dysgwyr, ein gobaith yn ysgol Bro Cinmeich yw y bydd y disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'r gweithgareddau a'u dysgu eu hunain. Yn gyson gydol y thema, mae'r athrawon yn ymateb i chwilfrydedd a chwestiynau y disgyblion wrth lywio'r gweithgareddau.

#### Cadw y Polisi yn Gyfoes:

Polisi sydd yn diwygio'n gyson yw'r polisi hwn, mae'n hanfodol caniatáu addasu a newid er mwyn gwir fanteisio ar hyblygrwydd y Cwricwlwm newydd. Mi fydd gwaith ymchwil yr ysgol a thu hwnt yn ychwanegu at brofiadau athrawon a disgyblion. Rydym yn cymhell ein hathrawon i fod yn arloesol er mwyn cyffroi a diwygio'r addysgeg.